

GRANT Y GYMRAEG 2022-23

DALGYLCH / *CLUSTER*: CLWSTWR ADY

YSGOLION / *SCHOOLS*: YSGOL PLAS BRONDYFFRYN , YSGOL PLAS CEFNDY, YSGOL TIR MOREA

BWRIAD Y GWAITH / DEILLIANNAU A FWRIEDIR: *AIM OF THE WORK/INTENDED OUTCOMES:*

CYNNAL GWEITHDY CERAMIG ER MWYN CREU DARN O WAITH YN YMWNEUD Â CHYMRU I'W ARDDANGOS YN YR YSGOL

AMCANION Y GRANT / *GRANT OBJECTIVES:*

CYDWEITHIO MEWN GRWP IAU DOSBARTH I GREU, YN DEFNYDDIO'R GYMRAEG A GEIRFA AC YMADRODDION SYLFAENOL FEL BO'N BRIODOL. CREU DARN O WAITH YN YMWNEUD Â CHYMRU I'W ARDDANGOS.

DISGRIFIAD BYR O'R GWAITH / *BRIEF DESCRIPTION OF THE WORK*

Aeth Jude a Ben i bob ysgol i weithio gyda grwpiau o blant. Defnyddiwyd clai, rowliau, torwyr, blociau patrwm ac ati a'u hannog i fod yn greadigol a gweithio yn ôl eu gallu a'u diddordebau i greu darn o waith fel grwp yn ymwneud â Chymru. Dewisodd Ysgol Plas Brondyffryn wneud arwydd CROESO yn ymwneud â'r ardd. Dewis Ysgol Plas Cefndy oedd gwneud wynebau emoji a dewisodd Ysgol Tir Morfa greu teils ar y thema "Pwy wyt ti?". Mae pob ysgol wedi cwblhau cam cyntaf y prosiect ac mae Jude a Ben wrthi'n tanio'r darnau clai cyn dod â nhw'n ôl i'r ysgol i'w paentio a'u sgleinio.

EFFAITH / IMPACT:

Bu'r prosiect hwn yn fodd i ddisgyblion:

Fwynhau gweadau, lliwiau, patrymau.

Cydweithio i greu rhywbeth y gallant ei weld yn yr ysgol ac ymfalchïo ynddo.

Defnyddio ystod o eirfa a'r Gymraeg yn achlysurol.

Gweithio gyda ffrindiau.

Cael profiadau newydd.

Bu'n fodd i gyd-weithwyr:

Gydweithio fel rhan o glwstwr ADY i rannu syniadau a gwybodaeth a datblygu cysylltiadau pwysig â lleoliadau ei gilydd.

Ychwanegwch luniau/fideos (drwy ddolenni), dolenni i 'badlets' ac ati i enghreifftio'r gwaith er mwyn gallu rhannu a dysgu oddi wrth ein gilydd.

Add photos/videos (via links), links to 'padlets' etc. to exemplify the work so we can share and learn from each other.

<https://twitter.com/ysgolplasb/status/1640376823790878721?s=20>

<https://twitter.com/TirMorfa/status/1638907613978193921?s=20>

<https://twitter.com/TirMorfa/status/1638824175312965633?s=20>



Tweet



Ysgol Plas Brondyffryn

@ysgolplasb



Thank you so much to Jude who came to do a ceramics workshop with our Primary pupils to help develop their Welsh skills.

[@AthrawonB](#)



4:34 pm · 27 Mar 2023 · 409 Views

1 Retweet 6 Likes



Tweet



Ysgol Tir Morfa

@TirMorfa



[#ytmalwen](#) enjoyed creating clay self portraits to answer 'pwyt ti?'.
We enjoyed the session and exploring the clay! [#ytmllc](#) [#ytmexpart](#)



2:16 pm · 23 Mar 2023 · 248 Views

4 Likes

← Tweet



Ysgol Tir Morfa
@TirMorfa

...

Dosbarth Enfys had a great time mark-making during a clay session to create tiles based on 'Pwy wyt ti?' [#ytmenfys](#) [#ytmeec](#) [#ytmexp](#)



GWYBODAETH YCHWANEGOL / *ADDITIONAL INFORMATION* :

Unwaith eto, rydym wedi bod yn ffodus i gael grant i gynnal gweithdy ceramig gyda'n disgyblion yma yn *Stepping Stones South*.

Fe wnes i gysylltu â Ben a Jude, y bues i'n gweithio gyda nhw'r llynedd, yn gofyn a fyddent yn ystyried ein cynnwys yn eu hamserlen brysur. Roeddent yn hapus iawn i gynnig eu hamser i ni, felly, dyma drefnu dyddiad cyfleus.

Cyrhaeddodd Ben yn gynnar un bore Mercher i gael pethau'n barod ar gyfer y grwp. Cychwynnodd y sesiwn am 10am – ar ôl brecwast. Cyflwynodd Ben ei hun i'r grwp – roedd rhai o'r disgyblion yn ei gofio ers y llynedd.

Penderfynwyd gwneud wynebau emoji ar deils, gyda geiriau Cymraeg oddi tanynt.

Rydym yn bwriadu eu harddangos yn ein coridor.

Dangosodd Ben beth oedd angen ei wneud gyda'r clai, ac aeth y plant ati i greu eu campweithiau.

Ar ddiwedd y dydd aeth Ben â'r teils gydag o i'w tanio. Mae dyddiad arall ar y gweill i Jude ddod yn ôl a chynnal gweithdy arall – y tro hwn bydd y disgyblion yn peintio'r teils.

Bydd Jude yn mynd â'r teils gyda hi ar ddiwedd y sesiwn nesaf i'w sgleinio. Bydd Ben wedyn yn dod â'r gwaith gorffenedig yn ôl a'r cwbl fydd angen i ni ei wneud fydd eu harddangos.

Tracey Jones – Ysgol Plas Cefndy

GWYBODAETH YCHWANEGOL / *ADDITIONAL INFORMATION* :

Fe wnaeth ein dosbarthiadau cynradd fwynhau gweithio efo Jude i greu eu teils eu hunain ar y thema 'Pwy wyt ti?' Clywsant ystod o eirfa Gymraeg yn cynnwys rhannau'r corff, lliwiau yn ogystal â defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol a chyfarch yn gymdeithasol. Bodlonwyd anghenion pob dysgwr yn ystod y prosiect, ac fe wnaeth y plant fwynhau'r agweddau synhwyradd yn benodol. Nid yw'r prosiect wedi'i gwblhau eto a byddwn yn peintio'r teils ar ôl gwyliau hanner tymor. Byddant wedyn yn cael eu harddangos yn yr ardal tu allan.

Diolch am ariannu'r prosiect.

Denise Thorn

Ysgol Tir Morfa

GWYBODAETH YCHWANEGOL / *ADDITIONAL INFORMATION*:

Mae disgyblion Ysgol Plas Brondyffryn wedi elwa'n fawr ar gael cyfle i weithio gyda gwahanol gyfryngau, gweadau a chyfarpar, dan arweiniad artist arbenigol. Bu Jude yn gweithio efo 5 dosbarth gwahanol dros gyfnod o 2 ddiwrnod ac roedd yr holl ddisgyblion yn gweithio ar lefel briodol iddynt hwy. Roedd Jude wedi holi am lefelau'r disgyblion yn flaenorol a defnyddiodd yr wybodaeth hon i gynllunio'r gwaith ar yr union lefel iawn. Cafodd y disgyblion i gyd gymaint allan o'r gweithdai, ac rydym yn edrych ymlaen yn arw at weld Jude ar ôl hanner tymor er mwyn i ni gael peintio'r teils.

Diolch am ariannu'r prosiect.

Katie Jones
Ysgol Plas Brondyffryn